

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Julie James AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0314/24

Mike Hedges AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

8 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Tachwedd 2024 yn gofyn am fanylion ein gwariant arfaethedig a nodir yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ar weithgareddau cyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru.

Dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig ar draws camau gweithredu sy'n gysylltiedig â chyfiawnder

Gellir gweld dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig ar draws y prif gyllidebau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn y tabl atodedig, ochr yn ochr â disgrifiad naratif o unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch allweddol o fewn rhaglen waith *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, megis Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuencid, a thribiwnlysoedd.

Yn ogystal, mae llinellau cyllideb ar draws Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu'n llai uniongyrchol at ganlyniadau cyfiawnder, megis elfennau o'r cyllidebau tai, iechyd ac addysg, er nad ydym yn gallu nodi'r union wariant o fewn y cyllidebau hynny sy'n mynd tuag at wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y llinellau hyn yn y gyllideb yn cael eu hystyried gan eu pwyllgorau craffu pwnc perthnasol at brif ddiben y gyllideb honno, felly nid ydym wedi darparu gwybodaeth am y llinellau hyn yn y gyllideb hefyd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwella lefel yr wybodaeth a ddarperir am wariant arfaethedig ym maes cyfiawnder gan gynnwys newidiadau i strwythur a chyflwyniad y gyllideb

Rydym yn cydnabod pwynt y Pwyllgor ei bod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru allu deall gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Rydym yn bwriadu gwella lefel yr wybodaeth y gallwn ei darparu am wariant cyfiawnder ar draws y llywodraeth. Mae'r cwestiynau hyn yn rhai teg, ac rydym yn cydnabod bod darparu atebion iddynt o fudd i'r cyhoedd. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr ymdrechion y mae wedi'u gwneud, er gwaethaf ei lwyth gwaith sylweddol arall, i ddarparu craffu trawsbynciol ar faterion cyfiawnder.

Fel y mae ein rhagflaenwyr wedi nodi gerbron y Pwyllgor, fodd bynnag, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel fanwl am wariant cyfiawnder, gan fod gweithgarwch cysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws portffolios ac yn cael ei ddyrannu o nifer o linellau gwariant yn y gyllideb (BEL). Mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cwmpasu ystod o wahanol weithgareddau, ni fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynghylch sut y byddai'r arian o fewn y BEL honno'n cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud gwaith pellach i asesu i ba raddau y cânt eu dyrannu i wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder.

Rydym wedi darparu gwybodaeth am y llinellau cyllideb sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar draws y Prif Grwpiau Gwariant gwahanol sy'n eu cynnwys.

Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

Y Rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

Ym mis Chwefror 2024, gwnaethom gyhoeddi [adroddiad cynnydd](#) yn dilyn yr adroddiad *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn 2022*. Yr adroddiad cynnydd hwn yw'r crynodeb gorau a mwyaf diweddar o hyd o'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni.

Mae'r tabl yn yr atodiad yn nodi gwariant arfaethedig sy'n ymwneud â nifer o weithgareddau sy'n rhannau allweddol o raglen *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* Llywodraeth Cymru, gan gynnwys naratif ar newidiadau o'r flwyddyn ariannol bresennol.

Gweithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r tabl sydd ynghlwm hefyd yn manylu ar y gwaith arfaethedig gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder dros y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Rydym yn falch ein bod wedi gallu darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y gwaith pwysig a wnaed yn y meysydd hyn. Rydym hefyd yn parhau i ariannu niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yng Nghymru, gan ddarparu cyllid y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael i heddluoedd yn Lloegr.

Nodwn fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn gyfrifol am graffu ar y llinellau cyllideb hyn, fel rhan o'r gweithgarwch ehangach i wella diogelwch cymunedol a hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru.

Yn ogystal, byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.

Datganoli Cyfiawnder

Rhaid i unrhyw ddatganoli swyddogaethau cyfiawnder gael ei ariannu'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf a chyllid refeniw i ddarparu gwasanaethau datganoledig. Bydd goblygiadau ariannol datganoli cyfiawnder ieuencid a'r gwasanaeth prawf yn rhan o'r trafodaethau y byddwn yn eu cynnal gyda Llywodraeth y DU.

Cyn y trafodaethau hyn, nid oes modd nodi'r cynnydd tebygol i'r cyllidebau cyfiawnder i'r Pwyllgor. Rydym yn rhagweld y byddai unrhyw drosglwyddo pwerau a swyddogaethau ar raddfa fawr, gan gynnwys ehangu adnoddau'r gyllideb, yn dod i rym yn nhymor nesaf y Senedd. Byddai unrhyw drosglwyddo swyddogaethau cyn hynny yn gofyn am drafodaethau ar yr angen am gyllid yn ystod y flwyddyn.

Yn 2025/26, rydym yn rhagweld gweithgarwch sylweddol i negodi gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid, mireinio polisi gweithredol ac, o bosibl, gyflwyno'r mecanwaith cyfreithiol i ddatganoli cyfrifoldebau newydd i Gymru. Bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei ariannu o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol fel rhan o'r rhaglen waith ehangach i weithredu argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Yn benodol, rydym yn disgwyl defnyddio'r ddau BEL hyn i ariannu nifer fach o staff ychwanegol i gefnogi trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a pharatoi ar gyfer mabwysiadu swyddogaethau newydd gan Lywodraeth Cymru.

Tribiwnlysoedd Cymru

Mae'r tabl atodedig sydd ynghlwm hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y dyraniad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth tribiwnlysoedd yn 2025/26.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i nodi'r sbardunau ar gyfer costau ychwanegol a'u lleihau ar gyfer y flwyddyn hon a blynyddoedd dilynol. Yn y bôn, mae tribiwnlysoedd yn wasanaeth sy'n seiliedig ar y galw, ond rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl. Er bod nifer o sbardunau gwariant cynyddol yn anghildroadwy, mae rhai meysydd eraill yn cynnig rhywfaint o botensial ar gyfer effeithlonrwydd gyda chymorth arweinwyr y tribiwnlysoedd unigol.

Serch hynny, dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd parhaus yng nghostau rhedeg y gwasanaeth tribiwnlysoedd heb gynnydd cyfatebol yn y ddarpariaeth gychwynnol mewn cyllidebau blynyddol.

Mae'r Gyllideb ddrafft wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa hon gyda dyraniad dros dro o £6.008m ar gyfer 2025/26, sef cynnydd o'r £4.110 miliwn yn 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli cydnabyddiaeth sylweddol o bwysigrwydd gwaith y tribiwnlysoedd a'r heriau a wynebir. Y disgwyl yw y byddai'r Llywydd a'i dîm arwain yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod gwariant yn aros o fewn y swm hwn.

Diwygio'r tribiwnlysoedd

Mae'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn darparu adnoddau ar gyfer prosiect diwygio'r tribiwnlysoedd. Mae *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* yn nodi ein bwriad i foderneiddio'r system dribrwnlysoedd i Gymru yn seiliedig ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Chomisiwn y Gyfraith.

Dim ond gyda deddfwriaeth sylfaenol y gellir diwygio ar y raddfa rydym yn ei chynnig. Mae amserlennu deddfwriaeth, wrth gwrs, yn ddarostyngedig i'w broses ar wahân ei hun. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Bil, p'un ai i'w gyflwyno yn y Senedd hon neu yn barod ar gyfer y Senedd nesaf. Hyd yma, mae'r gwaith hwnnw wedi'i wneud o fewn yr adnoddau presennol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys adnoddau ychwanegol ar gyfer y BEL Trawsnewid Cyfiawnder. Un o brif ddibenion hyn yw caniatáu ar gyfer dwysáu gwaith paratoi i nodi, cwmpasu a chynllunio ar gyfer y ffrydiau gwaith sylweddol y bydd eu hangen i ddod â system dribiwnlysoedd newydd i rym ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei phasio.

Hygyrchedd cyfraith Cymru

Fel yr esboniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, telir costau ein gwaith i gyflawni *Dyfodol Cyfraith Cymru* o nifer o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Dyna'r sefyllfa o hyd ar gyfer 2025-26 ac, yn wir, felly y bydd hi yn y blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y
Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary
for Climate Change and Rural Affairs



Julie James AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Atodiad A – dyraniadau'r gyllideb ddrafft i gyllidebau cyfiawnder – 2025/26

BEL	MEG	Cyllideb 24/25	Cyllideb arfaethedig 25/26	Effaith newidiadau
Trawsnewid Cyfiawnder	Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	0.48m	0.688m	Mae'r BEL hon yn ariannu paratodau datganoli a diwygio'r tribiwnlysoedd. Bydd y cynnydd mewn cyllid yn cefnogi staffio'r ddau weithgarwch hyn ac, o bosibl, unrhyw gostau cysylltiedig eraill.
Diwygio Cyfansoddiadol	Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	1.997m	2.014m	Mae'r BEL hon hefyd yn cyfrannu at waith i geisio datganoli cyfiawnder ieuencid a'r gwasanaeth prawf drwy ariannu (ymhlith pethau eraill) staff i weithio ar y polisiau hyn. Mae'r gyllideb hon wedi cynyddu 1.3% i adlewyrchu codiad cyflog ac effeithiau SCAPE
Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuencid	Cyfiawnder Cymdeithasol	1.092m	1.292m	Mae'r BEL hon yn darparu gwaith i gefnogi menywod a phlant yn y system gyfiawnder, gan gynnwys gwasanaeth Cymru'n Un rydym yn ei gomisiynu ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder. Bydd y cynnydd yn y gyllideb yn cefnogi ehangu gweithgarwch, gyda ffocws penodol ar gyfiawnder ieuencid. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddiffinio'r gweithgarwch hwn yn llawn fel y gall

				gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.
Cymorth Cymunedol a Diogelwch	Cyfiawnder Cymdeithasol	15.488m	16.003m	Mae'r BEL hon yn cefnogi ein cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n cael eu cyflogi gan heddluoedd Cymru a heddlu Trafnidiaeth Prydain. Rydym yn rhagweld y bydd y cynnydd o ryw 3% yn y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi unrhyw godiadau cyflog ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn 2025-26.
Tribiwnlysoedd	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	4.15m	6.008m	Bydd y cynnydd hwn yn unioni sefyllfa gyllidebol y tribiwnlysoedd, gan fod angen chwistrelliadau arian yn ystod y flwyddyn ers tro byd.

Atodiad B – rhestr o linellau yn y gyllideb sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol at ganlyniadau polisi cyfiawnder

Y pwyllgorau craffu ar bolisi sy'n goruchwylio prif ddiben y llinellau yn y gyllideb sy'n craffu ar y dyraniadau i'r llinellau hyn yn y gyllideb.

SPA	BEL
MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	
Rhaglenni Canolog	Argyfyngau Sifil Posibl a Diogelwch Gwladol
Y Gymraeg	Y Gymraeg
MEG Tai a Llywodraeth Leol	
Polisi Tai	Digartrefedd
MEG Cyfiawnder Cymdeithasol	
Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol	Cymunedau Cydlynol
Cefnogi Cymunedau	Incwm Sylfaenol
Cefnogi Cymunedau	Gwasanaethau Cyngori
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
MEG Yr Economi, Ynni a Chynllunio	
Sectorau a Busnes	Busnes Cymru
Sgiliau	Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant Pobl Ifanc
Sectorau a Busnes	Tasglu'r Cymoedd
Sgiliau	Prentisiaethau
Partneriaethau Cymdeithasol	Partneriaethau Cymdeithasol
MEG Addysg	
Llesiant	Dysgu i Droseddwr
Llesiant	Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant
MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	
Cyllidebau Iechyd Canolog	Iechyd Meddwl
Cyllidebau Iechyd Canolog	Camddefnyddio Sylweddau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cefnogi Plant	Grant Plant a Chymunedau
Cyflenwi'r GIG	Dyraniadau Craidd y GIG
Cefnogi Plant	Cefnogi Plant
Gofal Cymdeithasol	Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Cefnogi Plant	Cymorth i Deuluoedd a Phlant
Cafcass Cymru	Cafcass Cymru